

# Adroddiad Arolygu Gofal Iechyd Annibynnol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Hosbis St Kentigern

Dyddiad yr arolygiad: 07 a 08 Mawrth 2023

Dyddiad cyhoeddi: 08 Mehefin 2023



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copiâu o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163  
E-bost: [AGIC@llyw.cymru](mailto:AGIC@llyw.cymru)  
Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)

ISBN Digidol 978-1-83504-158-1

© Hawlfraint y Goron 2023

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

## Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

## Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

## Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



# Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom .....	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad .....	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym .....	8
	• Ansawdd Profiad y Claf .....	8
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol .....	11
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth .....	14
4.	Y camau nesaf .....	17
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad .....	18
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith .....	19
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	20

# 1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Hosbis St Kentigern ar 07 a 08 Mawrth 2023.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau Arolygydd Gofal Iechyd AGIC, un adolygydd cymheiriaid clinigol ac un adolygydd profiad y claf. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o Uwch-arolygwyr Gofal Iechyd AGIC.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#).

## 2. Crynodeb o'r arolygiad

### Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod ansawdd profiad y claf yn dda iawn.

Mynegodd y cleifion a'u perthnasau y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad foddhad â'r gofal a'r driniaeth a gafwyd. Dywedodd y cleifion wrthym fod y staff yn garedig ac yn ofalgar. Gwelsom enghreifftiau o ryngweithio da rhwng y staff a'r cleifion, gyda'r staff yn cefnogi'r cleifion mewn ffordd urddasol a pharchus.

Gwelsom aelodau o'r staff yn ymdrin â'r cleifion mewn ffordd ddigynnwrf a oedd yn rhoi tawelwch meddwl iddynt.

Roedd amgylchedd cyfan yr hosbis yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, yn lân ac yn daclus.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Amgylchedd glân a chroesawgar wedi'i gynnal a'i gadw'n dda
- Yr ymgysylltu rhwng y staff â'i gilydd, â'r cleifion ac â'u perthnasau

### Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Roedd y trefniadau ar gyfer darparu gofal yn Hosbis St Kentigern yn ddiogel ac yn effeithiol.

Roedd y staff yn ymrwymedig i ddarparu gofal tosturiol, diogel ac effeithiol i'r cleifion.

Roedd cyfarpar addas ar gael ac yn cael ei ddefnyddio er mwyn helpu i atal y cleifion rhag datblygu briwiau pwyso ac i'w hatal rhag cwmpo.

Roedd yr hosbis yn lân ac yn daclus, ac roedd trefniadau ar waith i leihau achosion o groes-heintio.

Roedd prosesau ffurfiol ar waith ar gyfer rheoli meddyginiaeth.

Roedd anghenion gofal y cleifion wedi cael eu hasesu gan y staff ac roedd y staff yn monitro'r cleifion er mwyn hyrwyddo eu llesiant a'u diogelwch.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Adolygu cynnwys y pecyn anaffylacsis er mwyn sicrhau ei fod yn adlewyrchu canllawiau cyfredol Cyngor Dadebru'r DU
- Sicrhau bod y staff yn cofnodi rhesymau ac yn llofnodi wrth groesi cofnodion allan ar siartiau rhoi meddyginiaeth.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Dull gweithredu amlddisgyblaethol mewn perthynas ag asesu, cynllunio a darparu gofal
- Darparu gofal cyfannol
- Atal a rheoli heintiau

## **Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth**

Crynodeb cyffredinol:

Roedd rheolaeth ac arweinyddiaeth dda yn yr hosbis ac roedd y staff, yn gyffredinol, yn canmol y cymorth roeddent yn ei gael gan y tîm rheoli.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn hapus yn eu gwaith a bod diwylliant agored a chefnogol yno.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Trefniadau goruchwyllo da gan y rheolwyr
- Trefniadau ymgysylltu a goruchwyllo da gan yr ymddiriedolwyr
- Polisiâu a gweithdrefnau
- Cyfathrebu.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith yn [Atodiad B](#).

## 3. Yr hyn a nodwyd gennym

### Ansawdd Profiad y Claf

#### Adborth gan Gleifion

Yn ystod yr arolygiad, yn ogystal â thrafodaethau wyneb yn wyneb, gwnaethom ddefnyddio holiaduron papur ac ar-lein i gasglu barn ac adborth gan gleifion a'u gofalwyr. Ni chawsom unrhyw ymatebion ar-lein a dim ond un holiadur papur a gwblhawyd. Fodd bynnag, yn ystod ein trafodaethau, gwnaeth y cleifion a'u perthnasau sylwadau cadarnhaol ar bob agwedd ar y gwasanaeth a gynigir yn Hosbis St Kentigern.

#### Hybu, diogelu a gwella iechyd

Roedd gwybodaeth a phamffledi yn ymwneud ag iechyd ar gael mewn amrywiol rannau o'r hosbis, yr oedd llawer ohonynt yn ddwyieithog.

Gwelsom enghreifftiau o ryngweithio da rhwng y staff a'r cleifion, gyda'r staff yn diwallu anghenion y cleifion mewn ffordd gynnil a phroffesiynol. Gwelsom aelodau o'r staff yn treulio amser gyda'r cleifion ac yn eu hannog a'u cefnogi i wneud pethau drostynt eu hunain, gan gynnal eu hannibyniaeth.

#### Urddas a pharch

Roedd y cleifion yn cael eu trin ag urddas, parch a thosturi gan y staff.

Gwelsom aelodau o'r staff yn bod yn garedig ac yn dangos parch at y cleifion. Gwelsom aelodau o'r staff yn gwneud ymdrechion i ddiogelu preifatrwydd ac urddas y cleifion wrth roi cymorth iddynt ag anghenion gofal personol. Cadarnhaodd y cleifion fod y staff yn garedig ac yn sensitif wrth roi gofal.

Dywedodd y cleifion wrthym fod y staff bob amser yn gwrtais a'u bod yn gwranddo, arnyn nhw ac ar eu ffrindiau ac aelodau o'u teulu, a bod y staff yn eu galw wrth yr enw yr oedd yn well ganddynt ei ddefnyddio.

Roedd pob claf yn cytuno fod y staff wedi siarad ag ef am ei gyflwr meddygol ac wedi ei helpu i'w ddeall.

Roedd yr amgylchedd wedi'i gynllunio mewn ffordd ystyrlon. Roedd yr ystafelloedd yn fawr ac wedi'u dodrefnu a'u haddurno i safon dda iawn. Roedd lolfeydd/ardaloedd bwyta cymunedol ar gael i'r cleifion a'u perthnasau ac roedd lolfeydd/ardaloedd eistedd llai o faint i'r bobl yr oedd yn well ganddynt amgylchedd mwy preifat. Roedd gardd amgaeedig ac ardal eistedd awyr agored i'r cleifion ac ymwelwyr eu defnyddio.



Roedd gan ystafelloedd y cleifion gyfleusterau cawod en-suite. Roedd digon o le yn yr ystafelloedd ymolchi cymunedol.

Roedd y cleifion yn cael cynnig y cyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau a sesiynau therapi grŵp a/neu unigol.

### **Gwybodaeth i gleifion a chydysniad cleifion**

Roedd y Datganiad o Ddiben a'r Canllaw i Gleifion, a oedd ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol am y gwahanol fathau o wasanaethau a ddarperir, cyfleusterau a staff yr hosbis.

Gwelsom y staff yn gofyn am gydsyniad y cleifion cyn darparu gofal.

### **Cyfathrebu'n effeithiol**

Drwy gydol yr arolygiad, gwelsom aelodau o'r staff yn cyfathrebu â'r cleifion a'u perthnasau mewn ffordd dawel ac urddasol. Cyfeiriwyd at y cleifion gan ddefnyddio'r enwau yr oedd yn well ganddynt eu defnyddio. Gwelwyd aelodau o'r staff yn cyfathrebu â'r cleifion mewn ffordd galonogol a chynhwysol.

Cadarnhaodd y cleifion eu bod wedi cael cynnig y dewis o gyfathrebu â'r staff yn eu dewis iaith ac roedd sawl aelod o'r staff yn siarad Cymraeg, a oedd yn golygu y gallai'r cleifion a'r perthnasau Cymraeg eu hiaith sgwrsio â nhw yn eu mamiaith.

### **Cynllunio a darparu gofal**

Roedd ansawdd cofnodion y cleifion y gwnaethom edrych arnynt yn dda iawn, gyda gwerthusiadau ysgrifenedig cynhwysfawr yn cael eu cwblhau gan y staff gofal ar ddiwedd pob shift a oedd yn adlewyrchu unrhyw newidiadau yn y gofal a ddarparwyd.

Roedd y cleifion yn cael eu cynnwys wrth gynllunio a darparu eu gofal eu hunain, cyhyd ag yr oedd hynny'n bosibl. Lle nad oedd y cleifion yn gallu gwneud penderfyniadau drostynt eu hunain, gwelsom dystiolaeth fod y staff yn ymgynghori â'r perthnasau ac yn eu hannog i wneud penderfyniadau am y gofal i'w ddarparu.

Roedd y tîm gofal iechyd amlddisgyblaethol yn rhoi gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn yn ôl yr anghenion a aseswyd ar gyfer yr unigolyn hwnnw. Roedd prosesau cadarn ar waith ar gyfer rhoi gwybod i weithwyr proffesiynol eraill fel y nyrs arbenigol ar hyfywedd meinwe, deietegydd, therapyddion galwedigaethol a ffisiotherapyddion am newidiadau o ran anghenion y cleifion.

O ran y cleifion hynny a oedd yn cael gofal seibiant, nodwyd gennym fod systemau digonol ar waith ar gyfer cynllunio i'w rhyddhau a bod y cleifion yn cael eu hasesu gan weithwyr proffesiynol eraill fel ffisiotherapyddion, therapyddion galwedigaethol a gweithwyr cymdeithasol cyn gadael yr hosbis.

Mae tîm yr hosbis yn gweithio gan ymgynghori â thîm gofal lliniarol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill. O ganlyniad, gall y staff gael gafael ar gymorth a chynghor arbenigol lle bo angen, er enghraifft gan fferyllwyr, deietegwyr, nyrsys arbenigol ar hyfywedd meinwe a therapyddion lleferydd ac iaith.

### **Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol**

Gwelsom fod y staff yn rhoi gofal mewn ffordd sy'n hyrwyddo ac yn diogelu hawliau'r cleifion.

Gwelsom fod y staff yn diogelu preifatrwydd ac urddas y cleifion wrth ddarparu gofal. Er enghraifft, roedd drysau ystafelloedd gwely yn cael eu cau pan oedd gofal yn cael ei roi.

Nodwyd gennym fod asesiadau o dan y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS) ac asesiadau Galluedd Meddyliol yn cael eu cynnal fel y bo angen.

Roedd ffurflenni Na Cheisier Dadebru (DNAR) yn cael eu cwblhau gan ymgynghori â'r claf neu'r cynrychiolydd teuluol a benodwyd ar ei gyfer.

### **Ymgysylltu â dinasyddion a'u hadborth**

Cyfeirir at weithdrefnau pryderon a chwynion yr hosbis yn y Datganiad o Ddiben, y Canllaw i Gleifion ac ar bosteri sydd wedi'u gosod mewn mannau amlwg ym mhob rhan o'r hosbis. Roedd y trefniadau hyn yn gyson â'r rheoliadau a'r safonau.

Dywedwyd wrthym gan aelod o'r staff fod nifer y cwynion a gafwyd am y gwasanaeth yn isel iawn.

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

## Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Nodwyd gennym fod y trefniadau ar gyfer darparu gofal yn ddiogel ac yn effeithiol, ac mai gofalu am y cleifion, a rhoi cymorth i'w perthnasau/gofalwyr, oedd prif flaenoriaethau'r staff.

Roedd polisiau a gweithdrefnau cynhwysfawr ar waith er mwyn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Roeddent yn seiliedig ar ganllawiau clinigol cyfredol ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Roedd archwiliadau clinigol ac asesiadau risg cyffredinol a mwy penodol yn cael eu cynnal yn rheolaidd er mwyn lleihau'r risg o niwed i'r cleifion, y staff ac ymwelwyr.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion gofal y cleifion a gwelsom fod asesiadau risg yn cael eu cynnal adeg derbyn ar gyfer briwiau pwysu a chwympiadau a'u bod yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Nodwyd gennym fod trefniadau boddhaol ar waith o ran diogelwch, dyletswyddau ar alw a chynllunio ar gyfer argyfyngau.

## Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Roedd trefniadau cadw tŷ a chynnal a chadw da ar waith. Roedd yr ardaloedd a'r ystafelloedd cymunedol a welsom yn lân ac yn daclus. Gwelsom fod cyflenwad da o gyfarpar diogelu personol ar gael er mwyn helpu i atal heintiau rhag lledaenu.

Roedd cyfleusterau golchi a sychu dwylo ar gael. Gwelsom hefyd fod gorsafoedd diheintio dwylo wedi'u gosod mewn manau strategol o amgylch yr hosbis.

Roedd polisi rheoli heintiau cynhwysfawr ar waith wedi'i ategu gan amserlenni glanhau cynhwysfawr.

Roedd archwiliadau rheolaidd yn cael eu cynnal er mwyn sicrhau bod y staff yn cydymffurfio â'r polisi ac egwyddorion arfer da. Roedd canlyniadau archwiliadau o'r fath yn cael eu harddangos ar hysbyswrdd wrth ymyl gorsaf y nyrsys i'r cleifion, ymwelwyr a'r staff eu gweld.

## Maeth

Roedd y bwyd a'r diod a oedd yn cael eu darparu yn dda iawn ac roedd anghenion bwyta ac yfed y cleifion yn cael eu hasesu adeg eu derbyn.

Roedd hylifau ar gael i'r cleifion ac roedd jygiau dŵr wrth ymyl eu gwely.

Gwelwyd y staff yn helpu'r cleifion i fwyta ac yfed. Gwelsom brydau amser cinio yn cael eu gweini a gwelsom y staff yn helpu'r cleifion mewn ffordd dawel ac urddasol

heb rithro gan roi digon o amser i'r cleifion gnoi a llyncu eu bwyd. Gwelsom hefyd fod y staff yn annog ac yn helpu'r cleifion i fwyta'n annibynnol.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion gofal a gwelsom fod siartiau monitro yn cael eu defnyddio lle bo'u hangen, er mwyn sicrhau bod y cleifion yn cael lefelau maeth a hylif priodol.

Mae'r holl brydau yn cael eu coginio'n ffres ar y safle bob dydd (gan gynnwys y prydau a gaiff eu gweini yng nghaffi'r hosbis) ac roeddent yn edrych yn apelgar ac yn flasus. Dywedodd y cleifion wrthym fod y bwyd yn dda iawn.

Roedd system effeithiol ar waith er mwyn diwallu anghenion cleifion unigol ac roedd y cyfathrebu rhwng y staff gofal a'r staff arlwygo yn dda.

Yn ogystal â'r brif gegin, roedd cegin fach ar y ward i'r staff baratoi diodydd a byrbrydau i'r cleifion.

### **Rheoli meddyginiaethau**

Roedd y trefniadau ar gyfer rheoli meddyginiaethau yn ddiogel, yn effeithiol ac yn drefnus ar y cyfan.

Roedd polisi rheoli meddyginiaeth cynhwysfawr ar waith, a oedd yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau'n rheolaidd.

Roedd meddyginiaeth yn cael ei storio'n briodol.

Gwelsom aelodau o'r staff yn rhoi meddyginiaeth ac edrychwyd ar sampl o gofnodion rhoi meddyginiaeth. Nodwyd fod y broses yn cael ei rheoli'n dda ar y cyfan. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd y staff bob amser yn cofnodi rheswm ac yn llofnodi wrth groesi cofnodion allan ar y siartiau rhoi meddyginiaeth.

**Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y staff, wrth groesi cofnodion allan ar y siartiau rhoi meddyginiaeth, yn cofnodi'r rheswm ac yn llofnodi.**

Nodwyd gennym hefyd fod angen adolygu'r meddyginiaethau yn y pecyn anaffylacsis er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu canllawiau cyfredol Cyngor Dadebru'r DU.

**Rhaid i'r person cofrestredig adolygu'r meddyginiaethau hynny yn y pecyn anaffylacsis er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu canllawiau cyfredol Cyngor Dadebru'r DU.**

Mae fferylllydd yn dod i'r hosbis bob wythnos i archwilio meddyginiaethau ac i roi arweiniad a chymorth i'r staff.

### **Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed**

Roedd polisiau a gweithdrefnau diogelu ysgrifenedig ar waith.

Dywedwyd wrthym nad oedd unrhyw faterion diogelu gweithredol yn yr hosbis ar adeg yr arolygiad.

### **Dyfeisiau, cyfarpar a systemau diagnostig meddygol**

Roedd amrywiaeth o gyfarpar meddygol ar gael yn yr hosbis a oedd yn cael ei gynnal a'i gadw'n briodol.

### **Gofal diogel a chlinigol effeithiol**

Roedd tystiolaeth o drefniadau gweithio amlddisgyblaethol da iawn rhwng y staff nyrso, y staff meddygol a'r staff therapi.

O'n trafodaethau â'r staff ac o edrych ar ddogfennaeth gofal y cleifion, nodwyd gennym fod y cleifion yn cael gofal diogel a chlinigol effeithiol.

Roedd y system Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol (NEWS) a llwybr gofal Sepsis wedi'u hadlewyrchu yn y broses asesu a chynllunio gofal.

### **Rheoli cofnodion**

Roedd systemau cadarn ar waith i sicrhau bod gwybodaeth bersonol am y cleifion a'r staff yn cael ei chadw'n ddiogel, ar ffurf electronig ac ar bapur.

Roedd fframwaith llywodraethu gwybodaeth ffurfiol ar waith ac roedd y staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran cadw cofnodion cywir a sicrhau cyfrinachedd.

Drwy archwilio'r cofnodion hyfforddi, gwnaethom gadarnhau fod y staff wedi cael hyfforddiant ar lywodraethu gwybodaeth.

# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

## Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Roedd strwythur clir ar waith i gefnogi trefniadau llywodraethu a rheoli'r hosbis.

Nodwyd gennym fod systemau a phrosesau wedi'u diffinio'n glir ar waith i sicrhau ffocws ar wella'r gwasanaethau yn barhaus. Roedd hyn yn cael ei gyflawni, yn rhannol, drwy raglen dreigl o archwiliadau a strwythur llywodraethu sefydledig a oedd yn galluogi aelodau enwebedig o staff i gyfarfod yn rheolaidd er mwyn trafod canlyniadau clinigol sy'n gysylltiedig â darparu gofal cleifion.

Yn ystod trafodaethau â'r staff, dywedwyd wrthym fod prosesau anffurfiol da ar waith o ddydd i ddydd i oruchwylio a chefnogi'r staff. Fodd bynnag, nodwyd gennym nad oedd adolygiadau perfformiad ac arfarnu staff ffurfiol wedi'u dogfennu yn cael eu cynnal yn rheolaidd.

Dywedwyd wrthym hefyd nad oedd llawer o gyfarfodydd tîm rheolaidd yn cael eu cynnal mwyach oherwydd problemau o ran argaeledd a phresenoldeb y staff. Gwnaethom argymhell y dylid gwneud ymdrech i wella presenoldeb y staff mewn cyfarfodydd tîm ac y dylid sicrhau, pan fo cyfarfodydd yn cael eu cynnal, bod cofnodion ar gael i bob aelod o'r staff ac y dylai pob aelod o'r staff gadarnhau ei fod wedi'u darllen.

Roedd adnodd asesu llywodraethu cynhwysfawr ar waith, a oedd yn nodi unrhyw feysydd yr oedd angen eu gwella neu yr oedd angen eu datblygu.

Gwnaethom siarad â sawl aelod o'r staff ac roeddent yn gyfeillgar, yn hawdd mynd atynt ac yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon uchel i'r cleifion a'u perthnasau/gofalwyr.

Yn ystod ein harolygiad, ac yn ogystal â thrafodaethau wyneb yn wyneb, gwnaethom ddsbarthu holiaduron AGIC i'r staff er mwyn cael gwybod am eu hamodau gwaith, ac er mwyn cael eu barn ar ansawdd y gofal a ddarperir i gleifion yn Hosbis St Kentigern. Cawsom 19 o ymatebion gan aelodau o staff sy'n gweithio mewn amrywiaeth o rolau clinigol ac anghlinigol. Ni chwblhaodd pob ymatebydd pob rhan o'r holiadur, a chafodd cwestiynau eu gadael yn wag.

Roedd yr ymatebion gan y staff yn gadarnhaol, gyda phob aelod o'r staff yn fodlon ar ansawdd y gofal a'r cymorth y maent yn eu rhoi i'r cleifion a phob aelod o'r staff ond un yn cytuno y byddent yn hapus â safon y gofal a ddarperir gan yr hosbis iddyn nhw eu hunain neu i'w ffrindiau a'u teulu. Roedd y rhan fwyaf a atebodd yn argymhell yr hosbis fel lle da i weithio (15/18).

Roedd ychydig llai na thraean o'r rhai a atebodd yn teimlo nad oedd y cyfathrebu rhwng yr uwch-reolwyr a'r staff yn effeithiol (5/16) ac nad oedd yr uwch-reolwyr yn gweithredu ar adborth gan y staff (5/17).

Roedd llawer o'r staff a gwblhaodd yr holiadur o'r farn eu bod wedi cael hyfforddiant priodol i gyflawni eu rôl (14/19). Gwnaeth y rhai nad oeddent o'r farn honno y sylwadau canlynol:

***“Does dim amser yn ystod y diwrnod gwaith i gwblhau hyfforddiant gorfodol.”***

***“... nid yw'r cwmni yn cynnig hyfforddiant sy'n benodol i rolau.”***

Roedd y rhan fwyaf o'r staff a gwblhaodd yr holiadur o'r farn eu bod yn gallu bodloni'r holl alwadau croes ar eu hamser yn y gwaith.

Roedd dros ddwy ran o dair yn credu bod digon o aelodau o staff iddyn nhw wneud eu gwaith yn iawn (13/19) ac roedd pob un ond dau yn meddwl bod deunyddiau, cyflenwadau a chyfarpar digonol ar gael iddynt wneud eu gwaith.

Dywedodd pob ymatebydd ond un fod preifatrwydd ac urddas y cleifion yn cael eu cynnal a bod defnyddwyr y gwasanaeth yn cael eu hysbysu ac yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu gofal, a'u bod yn credu bod digon o wybodaeth yn cael ei darparu i'r cleifion.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r rhai a atebodd fod eu sefydliad yn eu hannog i roi gwybod am wallau, camgymeriadau a fu bron â digwydd neu ddigwyddiadau (15/18) a'u bod yn meddwl bod y staff sy'n gysylltiedig ag unrhyw achosion o'r fath wedi cael eu trin yn deg (15/17).

Byddai dros dri chwarter y rhai a atebodd yn teimlo'n ddiogel yn codi pryderon am arfer clinigol anniogel (14/18) ac yn hyderus y byddai'r sefydliad yn ymdrin â'u pryderon (14/18).

Mae'r unigolyn cyfrifol (Prif Swyddog Gweithredol) wedi'i leoli yn yr hosbis. Mae hyn yn ei alluogi i fonitro'r gwasanaeth yn rheolaidd ac yn golygu ei fod yn hygyrch i'r staff, y cleifion a'u perthnasau. Mae aelodau Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn ymweld â'r hosbis yn rheolaidd ac yn llunio adroddiadau fel sy'n ofynnol o dan Reoliad 28.

**Rhaid i'r darparwr cofrestredig adolygu'r ymatebion llai ffafriol gan y staff i rai o'r cwestiynau yn yr arolwg ar-lein.**

### **Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau**

Roedd Datganiad o Ddiben a Chanllaw i Gleifion yr hosbis, sydd ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, yn darparu gwybodaeth am sut i godi pryder neu gŵyn.

Roedd gweithdrefn gwyno ffurfiol ar waith ac roedd gwybodaeth hefyd wedi'i gosod ar hysbysfyrdau mewn amrywiol ardaloedd ym mhob rhan o'r hosbis.

Cawsom wybod gan y staff fod nifer y cwynion a geir am yr hosbis yn isel iawn a bod yr hosbis yn delio â nhw'n uniongyrchol lle y bo'n bosibl.

### **Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol**

Roedd staff yr hosbis yn cael eu hannog i fanteisio ar gyfleoedd hyfforddiant mewnol ac allanol.

Roedd y wybodaeth am hyfforddiant y staff a ddarparwyd yn dangos bod cyfraddau cwblhau hyfforddiant gorfodol yn dda. Roedd disgwyl i'r staff gwblhau hyfforddiant mewn pynciau fel diogelwch tân, rheoli heintiau, y Ddeddf Galluedd Meddyliol, y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid, Iechyd a Diogelwch a Diogelu yn ogystal â hyfforddiant penodol i'r gwasanaeth.

### **Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu**

Roedd proses recriwtio staff ffurfiol ar waith.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion y staff a gwelsom fod yr hosbis wedi dilyn y gweithdrefnau priodol ac wedi cynnal gwiriadau recriwtio perthnasol cyn i'r staff ddechrau gweithio.

Dywedwyd wrthym y byddai cymorth gweinyddol adnoddau dynol ychwanegol o fudd i'r gwasanaeth ac argymhellir y dylai'r darparwr cofrestredig roi ystyriaeth bellach i hyn.



## 4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

# Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon yr oedd angen ymdrin â nhw ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn.			

# Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

**Gwasanaeth:** Hosbis St Kentigern

**Dyddiad yr arolygiad:** 07 a 08 Mawrth 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw faterion yr oedd angen sicrwydd ar unwaith yn eu cylch yn ystod yr arolygiad hwn.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (priflythrennau):**

**Teitl swydd:**

**Dyddiad:**

# Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Hosbis St Kentigern

Dyddiad yr arolygiad: 07 a 08 Mawrth 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y staff, wrth groesi cofnodion allan ar y siartiau rhoi meddyginiaeth, yn cofnodi'r rheswm ac yn llofnodi.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 Rheoliad 15. (5) (a)  Safon 15. Rheoli meddyginiaethau	Mae'r hosbis wedi ariannu ail sesiwn wythnosol o gymorth fferylliaeth arbenigol yn ychwanegol at y sesiwn a ariennir gan y bwrdd iechyd lleol. Felly, bydd mwy o amser gan fferylllydd arbenigol penodedig i gefnogi trefniadau llywodraethu da, gan gynnwys rheoli digwyddiadau sy'n ymwneud â chyffuriau, ac addysg i staff clinigol.  Mae'r camau ar gyfer gwella wedi cael eu trafod yn ystod cyfarfodydd rheoli	Jane McGrath, Metron	Rhoddyd ar waith ym mis Mai 2023

		meddyginiaethau a byddant yn parhau i gael eu monitro drwy wiriadau wythnosol o'r siartiau presgripsiwn.		
Rhaid i'r person cofrestredig adolygu'r meddyginiaethau hynny yn y pecyn anaffylacsis er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu canllawiau cyfredol Cyngor Dadebru'r DU.		Yn dilyn arolygiad AGIC, ymdriniodd y rheolwr cofrestredig (Metron) â hyn ar y cyd â'r Fferyllydd Arbenigol yn BIPBC.  Mae'r pecyn Anaffylacsis bellach wedi cael ei newid i adlewyrchu canllawiau cyfredol y DU, a dim ond adrenalin sydd wedi'i gynnwys yn y pecyn. Y dyddiad dod i ben ar y pecyn presennol yw 31 Rhagfyr 2024.	Jane McGrath, Metron	Rhodddwyd ar waith ar 1 Mai 2023
Rhaid i'r darparwr cofrestredig adolygu'r ymatebion llai ffafriol gan y staff i rai o'r cwestiynau yn yr arolwg ar-lein.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 Rheoliad 19. (2) (e)  Safon 24. Arferion recriwtio a	Mae'r gwaith o ddatblygu strategaeth newydd i'r hosbis ar gyfer 2023-2028 ar y gweill, a disgwylir y bydd strategaeth ddrafft wedi'i chwblhau erbyn diwedd mis Mehefin 2023. Mae'r strategaeth yn cael ei llywio gan broses ymgysylltu 'Darganfod'	Ellen Greer, Prif Swyddog Gweithredol	Proses ymgysylltu fewnol 'Darganfod' ar gyfer y staff a gwirfoddolwyr - diwedd mis Mehefin 2023 a fydd yn llywio strategaeth ddrafft newydd i'r hosbis ar

	<p>chyflogi'r gweithlu</p>	<p>fewnol. Mae pob aelod o'r staff a gwirfoddolwr yn cael holiaduron i'w cwblhau ar nifer o bynciau er mwyn llywio datblygiad y strategaeth newydd ac mae sesiynau grŵp wedi'u trefnu i'r Prif Swyddog Gweithredol gwrdd ag aelodau o'r staff a gwirfoddolwyr i gael sgysiau wyneb yn wyneb yn seiliedig ar y cwestiynau. Yn ystod y trafodaethau grŵp hyn, bydd y Prif Swyddog Gweithredol yn ystyried, gyda'r staff a'r gwirfoddolwyr, eu pryderon o ran cyfathrebu â'r uwch-reolwyr a'r cyfathrebu gan yr uwch-reolwyr a sut y gellir gwella'r trefniadau cyfathrebu mewn ffordd sy'n ystyrlon i'r staff a'r gwirfoddolwyr. Bydd hyn yn cynnwys sut y gellir gwella'r broses o roi sicrwydd i'r staff a'r gwirfoddolwyr y bydd yr uwch-reolwyr yn gwrando ar eu hadborth ac yn gweithredu arno.</p>		<p>gyfer 2023-2028 - diwedd mis Mehefin 2023, gan gynnwys cynlluniau ar gyfer 'Ein Pobl' gan gynnwys cynlluniau i gryfhau'r trefniadau cyfathrebu rhwng y staff, gwirfoddolwyr a'r uwch-reolwyr.</p>
--	----------------------------	--	--	--

		<p>Elfen allweddol o'r strategaeth newydd i'r hosbis fydd 'Ein Pobl' a sut mae'r hosbis yn recriwtio, yn cadw, yn datblygu ac yn cefnogi staff a gwirfoddolwyr. Bydd hyn yn cynnwys sicrhau bod y system arfarnu a datblygu perfformiad yn gadarn ac yn cael ei dogfennu'n effeithiol, gan gynnwys cynlluniau datblygu personol i helpu'r staff i wneud cynnydd a datblygu yn eu rolau. Yn seiliedig ar adborth a gafwyd gan y staff yn ystod y broses 'Darganfod' fewnol, bydd y trefniadau ar gyfer cyfathrebu dwy ffordd rhwng yr uwch-reolwyr a'r staff a'r gwirfoddolwyr hefyd yn cael eu cryfhau.</p> <p>Nod y Prif Swyddog Gweithredol yw bod mor weladwy â phosibl ac mae'n cerdded o amgylch yr hosbis fwy neu lai bob dydd ac yn mynychu cyfarfodydd staff</p>		
--	--	--	--	--

		<p>clinigol ac anghlinigol pryd bynnag y bo modd.</p> <p>Bwriedir i'r sesiynau 'Cwrdd a Chyfarch' gyda'r Bwrdd ddechrau ym mis Gorffennaf, gan gynnig cyfle i'r staff gwrdd ag Ymddiriedolwyr y Bwrdd a chael trafodaethau anffurfiol â nhw.</p> <p>Mae'r sianeli cyfathrebu presennol yn cynnwys cyfarfodydd a gynhelir bob chwe wythnos ar gyfer staff y gwasanaethau clinigol, yn ogystal â sesiynau myfyrio rheolaidd. Os na fydd aelodau o staff yn gallu mynychu'r cyfarfodydd staff, mae cofnodion ar gael yn y llyfr cyfathrebu i bob aelod o'r staff eu darllen. Mae gwybodaeth yn cael ei rhannu yn ystod cyfarfodydd trosglwyddo pan fo angen, a hefyd yn ystod cyfnodau newid shiftt. Defnyddir grŵp Whats App i'r staff clinigol er mwyn rhoi'r</p>		
--	--	--	--	--



		<p>wybodaeth ddiweddaraf am hyfforddiant ac fel adnodd cyfathrebu.</p> <p>Mae rheolwyr llinell y gwasanaethau anghlinigol hefyd yn cyfarfod â'u timau yn rheolaidd.</p> <p>Mae'r Uwch-reolwyr (pob rheolwr llinell) yn cyfarfod bob mis a chaiff cofnodion a chofnodlyfr gweithredu eu llunio o'r cyfarfodydd hyn.</p>		
--	--	--	--	--

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

### **Cynrychiolydd y gwasanaeth**

**Enw (priflythrennau): Jane McGrath**

**Swydd: Metron**

Dyddiad: 25 Mai 2023